***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 No. 3355

# Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Blant sy'n cael eu Haddysg drwy Ddarpariaeth Amgen) (Cymru) 2009

**Personau ychwanegol y caiff Gweinidogion Cymru ddarparu gwybodaeth am unigolion iddynt**

**7.**—(1) At ddibenion adrannau 537A(4)(b) a 537B(4)(b) o Ddeddf 1996, person rhagnodedig yw unrhyw un o'r canlynol—

(a) yr awdurdod lleol perthnasol;

(b) Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru neu Her Majesty's Chief Inspector of Education and Training in Wales; ac

(c) y cwmnïau Gyrfa Cymru a sefydlwyd i ddarparu gwasanaethau gyrfaoedd yng Nghymru o dan adrannau 2, 8 a 10 o Ddeddf Cyflogaeth a Hyfforddiant 1973.

(2) Categori rhagnodedig at ddibenion adrannau 537A(4)(c) a 537B(4)(c) o Ddeddf 1996 yw categori o bersonau sy'n ymchwilio i gyflawniadau addysgol plant ac y mae arnynt angen gwybodaeth am unigolion at y diben hwnnw.